**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**
**BIL GWASANAETHAU ARIANNOL**

## Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. “Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau’r Bil Gwasanaethau Ariannol fel y’i cyflwynwyd i Dŷ’r Cyffredin ar 26 Ionawr 2012 mewn perthynas â’r Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CAAD), i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.”

## Cefndir

2. Mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod wedi'i gyflwyno gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog (RhS) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan RhS29. Yn ôl RhS29, rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu bwrpas sy'n cael effaith negyddol ar y cymhwysedd hwnnw.

3. Cafodd y Bil Gwasanaethau Ariannol (y Bil) ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin ar 26 Ionawr 2012. Gellir gweld y Bil drwy fynd i http://www.publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2010-2012/0278/12278.i-v.html

## Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

4. Noddir y Bil gan Drysorlys EM. Prif bwrpas y Bil yw newid y ffordd y caiff gwasanaethau ariannol ledled y DU eu rheoleiddio. Yn benodol, mae'n diddymu'r rheoleiddiwr cyfredol (yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol) (FSA) ac yn rhoi dau reoleiddiwr (yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus) (PRA)) yn eu lle. Mae'r Bil yn ymestyn i Gymru. Ar y cyfan, mae'n ymwneud â rheoleiddio gwasanaethau ariannol neu ddiogelu defnyddwyr, nad ydynt yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad am eu bod yn dod o fewn yr eithriad Gwasanaethau Ariannol i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a geir o dan y pennawd Economaidd (para.4 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

## Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

5. Bydd y Bil yn ymestyn swyddogaethau'r Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CFEB) i roi cyngor ar ddyled. Mae Adran 6A o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 ("yr FSMA") (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol 2010) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol sefydlu corff addysg ariannol defnyddwyr (CFEB, y

cyfeirir ato bellach fel y Gwasanaeth Cynghori Ariannol). Ariennir CFEB gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (a ariennir ei hun gan y diwydiant gwasanaethau ariannol) ac mae'r Swyddfa Masnachu Teg (a ariennir hefyd at y diben hwn gan y diwydiant credyd defnyddwyr) drwy baragraff 14 o Atodlen 1A i Ddeddf 2000 yn darparu y gall y Trysorlys neu'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd roi grantiau neu fenthyciadau neu roi cymorth ariannol i CFEB.
6.Swyddogaeth CFEB yw cynyddu dealltwriaeth a gwybodaeth aelodau o'r cyhoedd am faterion ariannol a meithrin gallu aelodau o'r cyhoedd i reoli eu materion ariannol eu hunain. Mae Adran 6A(2) o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 yn nodi'n fwy manwl y mathau o wasanaethau y dylai CFEB eu darparu.

7.Bydd darpariaethau yn y Bil (mae cymal 5 o'r Bil yn dileu darpariaethau Rhan 1 o'r FSMA sy'n ymwneud â'r FSA ac yn rhoi darpariaethau sy'n ymwneud â'r FCA a PRA yn eu lle), yn ymestyn swyddogaethau CFEB er mwyn sicrhau y gall roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd ar sut y gallant reoli dyled (naill ai'n uniongyrchol neu drwy weithio gyda sefydliadau eraill). Nodir swyddogaethau newydd CFEB yn adran newydd 3R(4)(f ) ac (g). Bydd y ddarpariaeth yn adlewyrchu pwysigrwydd cyngor ar ddyled fel rhan o gylch gwaith cyffredinol CFEB.

8. Mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ran 1 o Atodlen 7 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("GOWA 2006") mewn perthynas â'r pwnc Addysg a Hyfforddiant ym mharagraff 5 a'r pwnc Lles Cymdeithasol ym mharagraff 15 ac nid ydynt yn dod o fewn unrhyw un o'r eithriadau a nodir mewn unrhyw Ran o'r Atodlen.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn**

9. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU am yr ystyrir ei bod yn synhwyrol cynnwys cylch gwaith corff sy'n cwmpasu'r DU gyfan mewn un darn o ddeddfwriaeth i'r DU. Y Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru a sicrhau cysondeb o ran rhoi cyngor ar ddyled ledled y DU.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gysylltiedig â gweithredu darpariaethau perthnasol y Bil Gwasanaethau Ariannol ar ôl hyn mewn unrhyw ffordd na ellir eu cynnwys fel rhan o rwymedigaethau sy'n bodoli eisoes.

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Chwefror 2012